Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Startrite**

**Meithrinfa Startrite**
**5 Ashgrove Terrace, Nelson**
**Treharris**
**CF46 6LR**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Startrite

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Startrite Nurseries Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Nodi â Llaw]<br>19 Gorffennaf 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw]<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn gyfforddus, wedi setlo ac yn mwynhau treulio amser gyda'u ffrindiau yn y feithrinfa.
Maent wedi ffurfio cydberthnasau agos â'r staff sy'n garedig ac yn ofalgar tuag atynt. Gall y plant siarad yn rhydd a rhannu eu syniadau â'r staff sy'n dangos diddordeb yn eu barn a'u safbwyntiau. Maent yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau gwahanol a bod yn annibynnol. Mae'r plant yn cael dewis ardderchog o ddiodydd a phrydau iach sy'n cael eu paratoi'n ffres.

Yn gyffredinol, mae'r staff yn rhoi cryn sylw i faterion iechyd a diogelwch ac mae ganddynt wybodaeth dda am y gweithdrefnau diogelu. Mae gan bron bob aelod o'r staff gymhwyster gofal plant ac maent wedi gweithio yn y lleoliad ers nifer o flynyddoedd. Maent yn hyderus yn eu rôl a'r gweithdrefnau sydd ar waith. Maent yn gyfarwydd iawn ag anghenion unigol y plant ac yn sicrhau bod cofnodion dyddiol yn cael eu diweddaru.

Ar y cyfan, mae'r lleoliad yn cynnig lle addas ac mae'n amgylchedd croesawgar ar gyfer anghenion gofal y plant. Mae cyfleusterau priodol dan do ac yn yr awyr agored, ac mae'r rhain yn ddiogel. Mae'n bosibl nad yw'r amgylchedd yn ddiogel bob amser am nad oedd asesiadau risg wedi'u diweddaru'n rheolaidd a gwelsom sawl perygl posibl. Aethpwyd i'r afael â'r rheini'n syth a diweddarwyd yr asesiadau risg. Mae amserlenni priodol ar waith ar gyfer glanhau a chynnal a chadw'r adeilad.

Yn gyffredinol, mae rhai agweddau ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn effeithiol, ond mae angen gwella meysydd eraill. Nododd yr arolygiad hwn feysydd lle nad oedd y lleoliad yn bodloni'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r rheolwr yn agored iawn i dderbyn cyngor a gwnaeth y gwelliannau angenrheidiol ar unwaith, felly nid ydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar yr achlysur hwn. Mae lefel y trosiant yn isel ymhlith y staff ac maent yn hapus yn gweithio yn y lleoliad. Mae proses ar waith i adolygu ansawdd y gofal a gynigir yn y gwasanaeth, ond nid yw wedi bod yn ddigon effeithiol i nodi'r gwelliannau angenrheidiol. Mae amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau i gefnogi'r gwaith o redeg y gwasanaeth ac mae'r rhain wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru'n ddiweddar. Mae'r partneriaethau â'r rhieni a'r awdurdod lleol wedi'u sefydlu'n dda ac yn effeithiol ar y cyfan.

| Llesiant | Digonol |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus, yn mwynhau mynychu'r gwasanaeth ac maent yn cael digon o ddewis o ran eu gofal a'u chwarae. Gall y plant fynegi eu hunain yn hyderus a meithrin cydberthnasau â'u ffrindiau a'r staff. Mae'r staff yn gwrando ar y plant ac yn gwerthfawrogi eu hymdrechion i siarad neu gyfathrebu. Er enghraifft, gwelsom fod y plant yn awyddus i ddewis y gân roeddent am ei chanu ac, ar sawl achlysur, gwelsom aelod o'r staff yn ymuno â phlentyn er mwyn cefnogi'r gweithgaredd a ddewiswyd ganddo. Mae staff ym mhob rhan o'r feithrinfa yn ymgynghori'n reddfol â'r plant ynghylch eu chwarae. Er enghraifft, clywsom blentyn bach yn gwichian yn llawn cyffro pan gynigiwyd iddo gymryd rhan yn y gweithgaredd anniben.

Mae'r plant yn fodlon ac maent yn meithrin cydberthnasau emosiynol agos â'r staff sy'n gyfarwydd iddynt, ac mae hynny'n eu helpu i deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus. Maent yn setlo'n gyflym pan fyddant yn cyrraedd, a chânt eu cyfarch gan y staff a'u ffrindiau. Mae'r plant yn rhyngweithio ac yn cyd-chwarae gyda'u cyfoedion ac maent yn gyfarwydd iawn â'r trefniadau dyddiol. Mae'r plant yn dysgu i reoli eu hymddygiad eu hunain a datblygu eu sgiliau cymdeithasol. Maent yn mwynhau cael canmoliaeth a chydnabyddiaeth gan y staff am foesau da ac am fod yn garedig ac yn barod eu cymwynas. Maent yn chwarae ar eu pen eu hunain neu gyda'u ffrindiau wrth iddynt ddysgu i rannu a chydweithio'n hapus. Er enghraifft, cymerodd rhai o'r plant eu tro i rolio eitem i weld un pwy oedd yn mynd bellaf. Mae'r plant yn dweud 'os gwelwch chi'n dda' a 'diolch' yn ddigymell, yn enwedig yn ystod amser byrbryd.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn ymateb yn gadarnhaol pan fydd y staff yn cymryd rhan yn eu chwarae ac maent yn dilyn eu cyfarwyddiadau'n dda. Maent yn cael llawer o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg sylfaenol, canu caneuon, dysgu i gyfrif ac enwi lliwiau yn ystod gweithgareddau. Mae'r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu hannibyniaeth. Maent yn defnyddio cyfleusterau'r ystafell ymolchi yn hyderus, gyda'r staff wrth law i gynnig cymorth os bydd angen, a gallant arllwys eu diodydd eu hunain.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Ar y cyfan, mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gan bron bob un ohonynt gymhwyster gofal plant. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith yn llwyddiannus, y mae llawer ohonynt wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod yr arolygiad hwn. Mae'r staff y cawsom sgwrs â nhw yn deall eu rôl o ran diogelu'r plant. Maent yn adnabod arwyddion a symptomau cam-drin ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb a'r weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am bryderon i'r awdurdodau perthnasol. Caiff damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes eu cofnodi'n briodol. Mae'r staff yn cwblhau cofnodion meddyginiaeth yn dda ac mae'r polisi meddyginiaeth a'r system gofnodi wedi cael eu hadolygu ymhellach. Mae gan bron bob aelod o'r staff dystysgrif cymorth cyntaf. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gwneud yn siŵr bod y plant yn cael amrywiaeth dda iawn o ddiodydd a phrydau iach sy'n cael eu paratoi'n ffres. Mae'r staff yn glir ynglŷn ag anghenion deietegol unigol y plant ac maent yn darparu bwyd yn unol â'r polisi.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol ac yn defnyddio dull cyson wrth reoli ymddygiad yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y lleoliad. Mae'r staff yn fodelau rôl da, gan hybu moesau da a pharch tuag at ei gilydd a'r plant. Maent yn rhyngweithio mewn ffordd garedig a gofalgar. Mae'r staff yn atgoffa'r plant i wrando a rhannu â'u ffrindiau gan ddefnyddio llais cadarnhaol. Maent yn ymyrryd yn brydlon er mwyn tynnu sylw'r plant oddi wrth sefyllfa negyddol oherwydd eu bod yn sylwgar ac yn adnabod y plant yn dda. Mae'r staff yn gwneud yn siŵr eu bod yn gosod ffiniau realistig, gan ystyried dealltwriaeth y plentyn a'i gam datblygiad. Mae'r plant yn ymddwyn yn dda a dim ond ychydig o achlysuron a gododd pan fu'n rhaid i'r staff ymyrryd mewn mân anghytundebau, megis ynghylch rhannu teganau.

Mae'r staff yn gyfarwydd iawn ag anghenion unigol y plant yn eu gofal. Byddant yn cael gwybodaeth ysgrifenedig am fanylion allweddol y plant cyn iddynt ddechrau a byddant yn monitro eu datblygiad wrth iddynt symud drwy'r lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith o gynllunio gweithgareddau er mwyn datblygu camau nesaf y plant yn effeithiol, a dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad eu bod yn cydnabod bod hwn yn faes i'w wella. Mae rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg yn rhugl a chlywsom lefel dda o'r Gymraeg yn cael ei defnyddio drwy ganeuon, cyfarwyddiadau syml ac wrth chwarae, megis ailadrodd enwau lliwiau a chyfrif yn ddwyieithog. Mae'r staff yn gwneud y gweithgareddau yn ddifyr sy'n cynnal diddordeb y plant ac yn sicrhau eu bod yn mwynhau eu chwarae. Mae'r staff yn annog y plant i rannu eu syniadau ynghylch gweithgareddau a theganau maent yn hoffi chwarae â nhw ac maent yn ymatebol i anghenion y plant.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y safle yn groesawgar ac yn ddiogel ar y cyfan. Mae'n cynnig lle a chyfleusterau addas i'r plant gael gofal a gweithgareddau priodol. Nodwyd maes i'w wella mewn perthynas â pheryglon posibl yn yr amgylchedd, megis y defnydd o orchuddion rheiddiaduron, rheoli heintiau, storio cyfarpar yn yr ardal newid cewynnau, diogelwch a drws tân nad yw'n ffitio'n dda. Cymerodd y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth gamau ar unwaith a datrys y problemau yn brydlon. Mae asesiadau risg ar waith, ac mae'r rhain wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod yr arolygiad hwn. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd a chaiff y rhain eu cofnodi. Mae cofnodion o ymarferion tân wedi cael eu gwella ers yr arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu pa mor llwyddiannus ydynt a ph'un a nodwyd unrhyw faterion. Caiff gwiriadau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad a chyfarpar eu cynnal yn rheolaidd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y cyfleusterau yn diwallu anghenion y plant sy'n cael gofal. Mae'r ardal dan do wedi'i rhannu'n ddwy brif ardal gofalu. Caiff plant dan 2 oed eu rhoi mewn ystafelloedd ar yr ail lawr a'r rhai dros 2 oed ar y llawr gwaelod. Pan gynhaliwyd yr arolygiad hwn, roedd y lleoliad wrthi'n cael ei ailaddurno ac nid oedd yr ystafell fabanod yn cael ei defnyddio. Mae nifer priodol o doiledau i blant a chyfleusterau newid ar gyfer nifer y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae ystafell gysgu ddynodedig ar wahân yn y rhan o'r feithrinfa ar gyfer plant dan 2 oed. Mae dwy ardal chwarae awyr agored a bydd y staff yn mynd â'r plant iddynt ar adegau penodol yn ystod y dydd fel arfer. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnig gweithgareddau a chyfarpar i'r plant ddatblygu sgiliau corfforol. Mae ystafell ddosbarth awyr agored a adeiladwyd at y diben lle gall y plant fanteisio ar amrywiaeth dda o weithgareddau. Ni welsom yr ardaloedd awyr agored yn cael eu defnyddio oherwydd bod gwaith adnewyddu yn cael ei wneud er mwyn gosod glaswellt ffug. Mae'r gwasanaeth yn y broses o estyn i'r eiddo cyfagos, ond nid yw hyn yn effeithio ar weithrediad y lleoliad ar hyn o bryd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y cyfarpar a'r adnoddau yn addas ar gyfer oedran y plant, ar y cyfan, a'u bod o ansawdd addas. Gall y plant gael gafael ar lawer o'r adnoddau eu hunain, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Roedd y staff yn gofalu am y plant iau ochr yn ochr â'r plant hŷn oherwydd bod eu hystafell yn cael ei hailaddurno. Sicrhaodd y staff y gallent ond gael gafael ar deganau a oedd yn addas ar gyfer eu hoedran, a diweddarwyd yr asesiad risg er mwyn dangos sut y caiff hyn ei reoli'n ddiogel. Mae dodrefn addas yn y lleoliad, megis byrddau a chadeiriau maint plentyn a dodrefn meddal. Newidiwyd y cadeiriau uchel yn ddiweddar er mwyn sicrhau y gallant ddefnyddio harnais pum pwynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn effeithiol mewn rhai meysydd ond mae angen gwella hyn mewn meysydd eraill er mwyn sicrhau bod y gwelliannau a wneir yn cael eu hymgorffori'n effeithiol yn y lleoliad a'u monitro. Gwelsom achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau, megis gwiriadau cyn cyflogi'r staff a chofnodion presenoldeb. Mae hwn yn fater difrifol, ond aeth y darparwr i'r afael â'r materion ar unwaith a llunio cynllun cadarn, gan ddangos dealltwriaeth glir o'r rheoliadau ar gyfer unrhyw gyflogaeth yn y dyfodol. Felly, nid ydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth y tro hwn. Yn gyffredinol, gwelsom er bod gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth, roedd llawer ohonynt yn hen. Roedd y darparwr yn agored iawn i drafod a dangosodd ymrwymiad cryf i ddatrys y problemau a nodwyd. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu'n drylwyr a'u diweddaru yn ystod yr arolygiad hwn. Mae'r staff yn cwblhau cofnodion dyddiol, megis damweiniau a digwyddiadau, yn dda. Roedd rhai manylion ar goll yn y cofnodion meddyginiaeth, ond aethpwyd i'r afael â hyn yn syth drwy gyflwyno ffurflen newydd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro'r gofal a gwerthuso sawl agwedd ar y gwasanaeth, ond mae angen gwella'r broses hon. Nid ydynt yn nodi'r gwelliannau angenrheidiol yn yr adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal bob amser. Fodd bynnag, mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymatebol ac aethant i'r afael yn brydlon â phob mater a godwyd yn ystod yr arolygiad hwn, gan gynnwys achosion o ddiffyg cydymffurfio. Gwnaethant gwblhau Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth AGC Ar-lein a'i gyflwyno'n briodol yn 2021. Mae'r adolygiad ar gyfer 2022 yn mynd rhagddo. Mae gweithdrefn gwyno ar waith, a chafodd hon ei diweddaru yn ystod yr arolygiad hwn. Dywedwyd wrthym nad yw'r gwasanaeth wedi cael unrhyw gwynion.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn brofiadol ac yn awyddus i ddarparu gwasanaeth hyblyg a dibynadwy i'r plant a'u rhieni. Mae bron pob aelod o'r staff wedi gweithio yn y lleoliad am nifer o flynyddoedd ac maent yn gweithio'n dda iawn fel tîm, gan ddarparu gofal cyson i'r plant. Mae gan bron bob un ohonynt gymhwyster gofal plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig ac yn uchel eu cymhelliant. Maent yn deall pa mor bwysig yw sicrhau bod hyfforddiant gorfodol i'r staff yn cael ei gwblhau a bod gan ddigon o staff dystysgrif cymorth cyntaf a bod y rhan fwyaf wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Mae gan y darparwr bolisi ar recriwtio staff. Gwnaethom edrych ar ffeil recriwtio staff a chanfod nad oedd y gwiriadau a wnaed yn bodloni'r rheoliadau. Mae hyn yn fater difrifol ond, oherwydd y camau prydlon a gymerwyd gan y darparwr, aethpwyd i'r afael â'r materion ac nid ydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth y tro hwn. Mae'r darparwr wedi adolygu'r polisi recriwtio ac ymgymryd â hyfforddiant recriwtio, felly dylai'r broses recriwtio fod yn fwy cadarn yn y dyfodol a sicrhau bod y staff yn cael eu recriwtio yn unol â'r rheoliadau. Mae gan y darparwr drefniadau ar gyfer rheoli perfformiad staff ac mae'r rhan fwyaf o'r staff yn cael cyfleoedd defnyddiol i drafod a myfyrio ar ansawdd eu gwaith yn ystod sesiynau goruchwylio ffurfiol, yn ogystal ag yn anffurfiol o ddydd i ddydd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau cryf â'r rhieni a'r awdurdod lleol. Maent yn gweithio'n agos gyda'r rhieni pan fyddant yn gwneud penderfyniadau am lesiant eu plentyn ac maent yn rhoi llawer o wybodaeth iddynt ac yn eu diweddaru bob diwrnod. Mae nifer o systemau cyfathrebu ar waith, rhai ar lafar yn bennaf, dyddiadur dyddiol a chyfrif cyfryngau cymdeithasol diogel er mwyn rhannu gwybodaeth am y plant a'r lleoliad. Nid yw'r lleoliad yn rhannu polisïau a gweithdrefnau â'r rhieni fel mater o drefn. Maent ar gael iddynt ar gais, ond cytunodd y person â chyfrifoldeb fod angen bod yn fwy rhagweithiol o ran sicrhau bod y rhieni'n glir ynglŷn â'r polisïau a weithredir gan y lleoliad. Roedd arolygon AGC a gwblhawyd gan y rhieni yn gadarnhaol iawn ynghylch y staff a'r gwasanaeth maent yn ei gael.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Yn ystod yr arolygiad hwn, mae'r darparwr wedi adolygu a gwella sawl agwedd ar y lleoliad. Mae llawer o'r rhain wedi'u cofnodi yng nghorff yr adroddiad arolygu. Felly mae'r argymhellion wedi'u cyflawni ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r darparwr barhau i fonitro pa mor llwyddiannus y caiff y newidiadau i bolisïau a dogfennaeth eu hymgorffori yn y lleoliad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 37 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y safle yn addas. | Cyflawnwyd |
| 15 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol | Cyflawnwyd |
| 28 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod yr holl ddogfennaeth angenrheidiol wedi'i chynnwys yng nghofnodion y staff fel rhan o broses recriwtio'r staff. | Cyflawnwyd |
| 16 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei adolygu'n flynyddol. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/01/2023